Children and Young People Service
CONNECT
Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Haul ar y ffordd!

Awst 2022

Amser am wyliau haf!

Gyda'r haf ar ei anterth, rydyn ni'n awr yn barod am ein gwyliau haf! Ond peidiwch â chael eich twyllo, dydyn ni ddim yn arafu.

Er cymaint y bydden ni'n hoffi bod ar y traeth, rydyn ni'n gweithio'n galed iawn yn cynllunio digwyddiadau anturus ar gyfer y flwyddyn o'n blaen, cynnal sesiynau Haf, cael dyddiau llawn hwyl i'r teulu a gweithio gyda'n Llysgenhadon CONNECT i arwain at newid!

Felly cadwch lygad ar eich mewnflwch: byddwch yn gweld digonedd o ddigwyddiadau a diweddariadau dros yr wythnosau nesaf, yn ogystal â thrydydd rhifyn llythyr newyddion Connect fydd yn ymddangos ym mis Hydref.

Arhoswch yn ddiogel yn yr haul, ac fe'ch gwelwn ni chi'n fuan!






Mae gennym sesiynau haf yn digwydd yn y Good Game Café bob wythnos tan 29 Medi lle gallwch chi ymlacio, chwarae eich hoff gemau, rhoi tro ar gonsolau retro a mwynhau gyda phobl eraill sydd wedi'u mabwysiadu. Archebwch le ar eich sesiynau fan hyn.* (14+)

*Sesiynau ar gael i aelodau cofrestredig Connect yn unig



Mae ambell i le ar ôl ar gyfer ein dyddiau hwyl i deuluoedd felly archebwch nawr er mwyn peidio cael eich siomi!

- RSPB Conwy - YN LLAWN!
- RSPB Casnewydd - 16 Awst - Archebwch fan hyn (bron yn llawn)
- Sir Gaerfyrddin- 22 Awst - Archebwch fan hyn (bron yn llawn)



Yr haf yma rydyn ni'n cynnal penwythnos preswyl ar, lle byddan nhw'n cael hyfforddiant mewn siarad cyhoeddus, sgiliau dadlau a rhagor gyfer ein Llysgenhadon CONNECT!

Ydy hyn yn swnio fel rhywbeth yr hoffech chi ei wneud? Ymunwch â Connect Voices fan hyn.